# Cofnodion Pwyllgor Y Ty

## HC(2)-05-05 (Cof)

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | 19 Mai 2005 |
| **Amser:** | 9.00am |
| **Lleoliad:** | Ystafell Bwyllgora 5, Adeilad y Cynulliad, Bae Caerdydd |

### Aelodau'n bresennol:

Y Dirprwy Lywydd (Cadeirydd)

Lorraine Barrett, AC Llafur

Peter Black, AC Democratiaid Rhyddfrydol

William Graham, AC Ceidwadwyr

Janice Gregory, AC Llafur

Jane Hutt, AC Llafur

Owen John Thomas, AC Plaid Cymru

**Swyddogion yn bresennol:**

Paul Silk, Clerc y Cynulliad

Dianne Bevan, Dirprwy Glerc y Cynulliad a Chlerc Pwyllgor y Ty

Gwen Parry, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfathrebu'r Cynulliad

Karin Phillips, Pennaeth Gwasanaethau Pwyllgorau ac Ymchwil yr Aelodau

Gwyn Griffiths, Cynghorydd Cyfreithiol (rhan o'r cyfarfod)

Peter Jones, Cwnsler Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad) rhan o'r cyfarfod)

Wayne Cowley, Pennaeth y Swyddfa Ffioedd

Nerys Evans, Pennaeth Rheoli Swyddfeydd a Chyfleusterau

Julia Reid, Y Gangen Adnoddau Dynol

Catherine Morris, Ysgrifennydd Preifat i'r Dirprwy Lywydd

Gareth Brydon, Ysgrifenyddiaeth Pwyllgor y Ty

**Ymddiheuriadau:**

Y Llywydd

| | |
|---|---|
| **1** | **Cofnodion y cyfarfod blaenorol a materion yn codi** |
| | Nododd yr Aelodau y byddai cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 21 Ebrill yn cael eu cyhoeddi erbyn 2 Mehefin 2005. |
| **1.1** | **Camau gweithredu sy'n deillio o'r cyfarfodydd blaenorol HC(2)-05-05(p1)** |
| | **Dirprwyaethau mewn perthynas â Deddf Diogelu Data 1988 a Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000**<br><br>Dywedodd y Cadeirydd fod Cynghorwyr Cyfreithiol wrthi ar hyn o bryd yn paratoi Cynigion i'r Cynulliad eu cymeradwyo, a fyddai'n gwneud y dirprwyaethau angenrheidiol i Bwyllgor y Ty mewn perthynas â materion Pwyllgor y Ty, ac i staff mewn perthynas â Phwyllgorau eraill y Cynulliad.<br><br>**Sgrinio Ffordd o Fyw**<br><br>Dywedodd Dianne Bevan y byddai'r wybodaeth a gasglwyd drwy'r rhaglen sgrinio'n cael ei chadw ar gyfrifiadur côl. Byddai'r wybodaeth yn cael ei dileu a'r ddisg galed yn cael ei dinistrio pan na fyddai'r cyfrifiadur côl yn cael ei defnyddio mwyach, i sicrhau na fyddai modd i unrhyw un weld yr wybodaeth yn y dyfodol. Byddai unrhyw wybodaeth gryno'n ddienw. |

| | |
|---|---|
| **2** | **Eitemau i Benderfynu Arnynt** |
| **2.1** | **Argymhellion gweithgor Pwyllgor y Ty : Lwfans i'r rheini sy'n dal Swydd HC(2)-05-05(p2)** |
| | Nododd Pwyllgor y Ty y cynnydd a wnaed gan y gweithgor a sefydlwyd i ystyried cyflogau i'r rheini sy'n dal swydd benodol. Wedi iddynt gwblhau'r gwaith a oedd ar y gweill, byddai'r gweithgor yn bwrw ymlaen i ystyried rhoi cyflog i Gadeiryddion y Pwyllgorau. Byddai'n adrodd yn ôl i Bwyllgor y Ty.<br><br>Cytunodd Pwyllgor y Ty y dylid cyfeirio materion yn ymwneud â Dirprwy Weinidogion ac Arweinyddion y Pleidiau at y Corff Adolygu Cyflogau Uwch Swyddogion i'w hystyried ymhellach pan fydd y Cynulliad wedi gwneud y newidiadau angenrheidiol i'r Rheolau Sefydlog yn ffurfiol i gydnabod cyfrifoldebau'r Dirprwy Weinidogion.<br><br>Camau i'w cymryd : Dianne Bevan |
| **2.2** | **Datganiad Gwasanaeth Dwyieithog Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad HC(2)-05-05(p3)** |
| | Nododd Pwyllgor y Ty y cynnydd a wnaed o ran gweithredu Datganiad Gwasanaethau Dwyieithog GSC yn ystod y flwyddyn gyntaf a chytunodd ar y trefniadau monitro arfaethedig ar gyfer 2005-06. |
| **2.3** | **Prif Ffrydio Cydraddoldeb yn y Cynulliad HC(2)-05-05(p4)** |
| | Cafodd Pwyllgor y Ty yr wybodaeth ddiweddaraf ar hynt y gwaith o weithredu argymhellion adroddiad y Pwyllgor Cyfle Cyfartal sef, 'Prif Ffrydio Cydraddoldeb'. Rhoddodd y Dirprwy Lywydd adroddiad ar ei ymddangosiad gerbron y Pwyllgor Cyfle Cyfartal yn ddiweddar a'r camau i'w cymryd o ganlyniad i'r cyfarfod fel y'u hamlinellir yn atodiad 4 i'r papur hwn.<br><br>Cafodd yr Aelodau drafodaeth ar ddarparu hyfforddiant i Aelodau'r Cynulliad gan nodi'r cynnydd a wnaed hyn yma o ran gweithredu argymhellion y Pwyllgor a amlinellir yn atodiad 3 a nododd y gwnaed cynnydd pellach yn dilyn trafodaethau yng nghyfarfod y Pwyllgor Cyfle Cyfartal ar 12 Mai. Cytunodd y Pwyllgor y dylid cymryd camau cadarnhaol i annog contractwyr i gydymffurfio ag egwyddorion cydraddoldeb.<br><br>Ystyriodd Pwyllgor y Ty a ddylai fod yn gyfrifol am fonitro'r ffordd y caiff Prif Ffrydio Cydraddoldeb ei gymhwyso ar draws holl waith GSC, a'r Pwyllgorau Pwnc yn arbennig. |

| | |
|---|---|
| | Cytunwyd nad oedd Pwyllgor y Ty yn gyfrifol am blismona gwaith y Pwyllgorau Pwnc. Nododd yr Aelodau y byddai Panel y Cadeiryddion yn cael adroddiadau monitro cyffredinol mewn perthynas â'r Pwyllgorau, er mai'r Pwyllgorau eu hunain fyddai'n parhau'n bennaf gyfrifol am eu perfformiad eu hunain yn y maes hwn, a byddai gan Bwyllgor y Ty ran yn y gwaith o fonitro'r holl gamau a gymerwyd a fyddai'n berthnasol i GSC.<br><br>Cytunodd yr Aelodau ar yr argymhellion yn y papur. |
| **2.4** | **Yr Wybodaeth Ddiweddaraf am yr Adeilad Newydd. HC(2)-05-05(p5)** |
| | Gofynnwyd i Bwyllgor y Ty ystyried dau fater:-<br><br>• *Cytuno, o ran egwyddor, i godi arwyddion Canolfan Mileniwm Cymru ar dir y Cynulliad*.<br><br>Cytunodd yr Aelodau y dylid gohirio'r penderfyniad nes y cafwyd gwybodaeth am natur a chynnwys yr arwydd a nes bod y broblem yn ymwneud â'r dwr a oedd yn cronni y lleoliad hwnnw mewn tywydd gwlyb wedi'i datrys;<br><br>• *Trefniadau i gymeradwyo mynediad i'r rheini â chardiau a phenderfynu ar fynediad ar draws y bont newydd.*<br><br>Clywodd yr Aelodau am y bwriad i ddefnyddio cardiau pwrpasol i ganiatáu mynediad ar draws y pontydd. Cytunodd y Pwyllgor y byddai angen ymweld â'r safle cyn dod i unrhyw benderfyniad ar drefniadau mynediad ar draws y bont newydd. Bydd angen cynnal yr ymweliad cyn cyfarfod nesaf Pwyllgor y Ty ar 23 Mehefin.<br><br>Cafodd y Pwyllgor drafodaeth fer ar y trefniadau ar gyfer arddangosfeydd cyhoeddus a gynhelir yn Neuadd y Cynulliad a'r Adeilad Newydd.<br><br>Camau i'w cymryd : Dianne Bevan |
| **2.5** | **Goblygiadau Cyllideb Merlin HC(2)-05-05(p6)** |
| | Ystyriodd Pwyllgor y Ty gynnig i ychwanegu £1.46 miliwn at ei gyllideb drwy drosglwyddo taliadau gwasanaethau TGCh o'r Gyfarwyddiaeth Rheoli Busnes a Gwybodaeth i'r gangen TGCh yn GSC. Cyhyd â bod y Dirprwy Lywydd yn cynnal y trafodaethau priodol â'r Gweinidog Cyllid, cytunodd y Pwyllgor y dylid gosod y Cynnig angenrheidiol i drosglwyddo'r cyllid. |

| | |
|---|---|
| **2.6** | **Mentrau Adnoddau Dynol HC(2)-05-05(p7)** |
| | Cyflwynwyd papur ar Fentrau Adnoddau Dynol er gwybodaeth. Cafodd y materion a ganlyn eu nodi neu eu trafod gan yr Aelodau:<br><br>• cytunodd y Pwyllgor i ehangu cwmpas protocol staffio Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad i gynnwys ACAC a Bwrdd yr Iaith Gymraeg;<br>• nododd yr Aelodau fod GSC wedi penodi dau aelod newydd o staff ar ôl cymryd rhan mewn cynllun peilot mewn partneriaeth â Chanolfan Fenter Caerdydd a De-ddwyrain Cymru;<br>• dylid cynnwys gwybodaeth am ethnigrwydd, pan fo hynny'n bosibl, mewn adroddiadau staffio misol i Bwyllgor y Ty yn y dyfodol;<br><br>Cytunodd Pwyllgor y Ty y dylid cynnwys Adroddiad ar faterion Adnoddau Dynol fel eitem sefydlog bob hyn a hyn ar agendâu yn y dyfodol.<br><br>Camau i'w cymryd : Mike Snook/Ysgrifenyddiaeth Pwyllgor y Ty |
| **2.7** | **Cadw Cofnodion HC(2)-05-05(p8)** |
| | Nododd Pwyllgor y Ty y cynnydd a wnaed mewn perthynas â'r Lwfans Costau Ychwanegol. Cytunwyd y gellid cael gwared ar gofnodion costau swyddfa a theithio neu gellid eu dychwelyd i'r Aelodau ar ôl tair blynedd yn dilyn diwedd y flwyddyn y mae'r hawliad yn berthnasol iddi. Cytunwyd hefyd y dylid cadw cofnodion yn ymwneud â staff yr Aelodau am chwe mlynedd wedi iddynt adael eu swyddi. |
| **2.8** | **Rhaglen y Ddraig Werdd HC(2)-05-05(p9)** |
| | Cytunodd Pwyllgor y Ty i GSC barhau i gymryd rhan ym Mhrosiect y Ddraig Werdd. Nododd hefyd y cynnydd a wnaeth GSC o ran cyrraedd Lefel 5 yn Safon Amgylcheddol y Ddraig Werdd. Cafodd yr Aelodau drafodaeth ar ddarparu lleoedd parcio yn y dyfodol a gofynnwyd i'r swyddogion baratoi papur i'r Pwyllgor ei ystyried.<br><br>Camau i'w cymryd : Dianne Bevan |
| **2.9** | **Newidiadau i Ddyraniad TGCh yr Aelodau HC(2)-05-05(p10)** |

Cafodd Pwyllgor y Ty fanylion y sefyllfa bresennol mewn perthynas â dyraniad TGCh yr Aelodau. Gofynnwyd i'r Pwyllgor ystyried newidiadau i sicrhau y byddai TGCh yn cael ei ddyrannu'n deg ac yn agored yn y dyfodol ac y byddai'r broses yn cael ei rheoli'n briodol. Byddai lwfans ychwanegol ar gael i ddiwallu anghenion TGCh yr Aelodau yn dilyn trafodaeth i ganiatáu i'r Aelodau gyflogi staff ychwanegol.

Trafododd yr Aelodau'r cynigion gan godi'r materion a ganlyn:

- Os na fydd yn bosibl cyflenwi neu osod yr eitemau y bydd yr Aelodau'n gofyn amdanynt, dylai Merlin anfon e-bost yn egluro pam;
- Yr amserlen ar gyfer newid dyraniad TGCh yr Aelodau: cytunodd Gwen Parry i ymchwilio ac i gynghori'r Aelodau maes o law;
- Darparu Band Eang mewn dau leoliad y tu allan i Fae Caerdydd. Roedd yr aelodau'n croesawu'r penderfyniad i ddarparu cysylltedd data ond roeddynt yn amau'r gost a bennwyd i ddarparu'r cyfleuster hwn. Ymgymerodd Gwen Parry i ymchwilio ac adrodd yn ôl.

Cytunodd Pwyllgor y Ty y dylid rhoi lwfans o hyd at £3,000 y flwyddyn i bob Aelod, i roi uned ychwanegol ar gyfer offer TGCh neu gostau TGCh eraill. Byddai hyn yn caniatáu i bob Aelod Cynulliad unigol gynyddu ei lwfans TGCh presennol o 5 i 6 uned ar y mwyaf. Gohiriodd y Pwyllgor unrhyw benderfyniad ynghylch rhoi arian ar gyfer lleoliadau cysylltedd data ychwanegol y tu allan i Fae Caerdydd tra bo adroddiad ar y costau yn cael ei baratoi.

**Camau i'w cymryd : Gwen Parry**

## Plac Coffa

Cytunodd Pwyllgor y Ty na fyddai unrhyw gamau pellach yn cael eu cymryd mewn perthynas â darparu plac coffa i Aelodau'r Cynulliad ei brynu. Os bydd y rheini sy'n gyfrifol am Siop y Cynulliad yn cael hyd i eitem addas i'w gwerthu yn y siop, cânt fwrw ymlaen â'r trefniadau heb ymgynghori ymhellach.

## Gwahanu Canghennau Gweithredol a Deddfwriaethol y Cynulliad

Dywedodd Paul Silk y byddai'r Aelodau yn ymwybodol y cyfeiriwyd at ddeddfwriaeth i ddiwygio'r Cynulliad Cenedlaethol yn Araith y Frenhines ac at addewid i baratoi Papur Gwyn ym mis Mehefin. Mae'n debygol y byddai angen ymateb i Bapur Gwyn yn gynnar ym mis Medi. Roedd yn gobeithio paratoi ymateb drafft i'r Pwyllgor erbyn mis Gorffennaf. O ran materion ymarferol, roedd yr Ysgrifennydd Parhaol wedi gofyn am raniad gweinyddol llawn rhwng y Cynulliad a Llywodraeth Cynulliad Cymru erbyn mis Ebrill 2006. Byddai angen i'r pwyllgor benderfynu ar rai materion yn ystod y deg mis nesaf. Dywedodd y Clerc y

| | |
|---|---|
| | byddai GSC yn colli rhai darbodion maint yn yr hirdymor. Yn y tymor byr, nododd y pwysau ychwanegol a fyddai'n wynebu staff wrth iddynt gyflawni eu gorchwylion arferol o ddydd i ddydd yn ogystal â pharatoi ar gyfer y gwahanu. John Grimes fyddai Rheolwr y Rhaglen Wahanu<br><br>Nododd Pwyllgor y Ty yr adroddiad.<br><br>**Y Drefn ar gyfer Gwagu'r Adeilad os bydd Tân**<br><br>Roedd nifer o faterion wedi codi o ganlyniad i'r ymarfer tân a gynhaliwyd yn ddiweddar. Roedd staff a heddlu'r Cynulliad wedi cael rhagor o wybodaeth am y cyngor priodol i'w roi pan fydd larwm yn canu'n ysbeidiol. Byddai ymarfer tân arall cyn diwedd tymor yr haf. Byddai'r drefn ar gyfer gwagu'r adeilad yn cael ei hailddosbarthu i'r Aelodau a'r staff.<br><br>Camau i'w cymryd : Nerys Evans |
| **3.** | **Eitemau i'w nodi** |
| **3.1** | **Cynllun Cymhorthdal Teithio i Ysgolion HC(2)-05-05(p11)** |
| | Nododd Pwyllgor y Ty gynnwys y papur. Gofynnodd am ragor o wybodaeth yng nghyswllt ffigyrau ymweliadau ysgolion â chanolfan y Cynulliad ym Mae Colwyn.<br><br>Camau i'w cymryd: Gwen Parry |
| **3.2** | **Grp Cyswllt Offer a Chyfleusterau. Cyfarfod ar 4 Mawrth 2005, HC(2)-05-05(p12)** |
| | Cadarnhaodd yr Aelodau gofnodion y cyfarfod. |
| **3.3** | **Papur ar Berfformiad yn erbyn Targedau HC(2)-05-05(p13)** |
| | Nododd Pwyllgor y Ty y papur. Cafodd yr Aelodau wybod y byddai adroddiadau yn y dyfodol yn dangos newidiadau ar gyfer Cofnod y Trafodion a Chyfieithu ar ôl trosglwyddo swyddogaethau i'r Llywodraeth. |
| **3.4** | **Yr Adroddiad Cyllid HC(2)-05-05(p14)** |
| | Nododd Pwyllgor y Ty yr adroddiad |

| | |
|---|---|
| **3.5** | **Gweithgareddau Cysylltiadau Tramor ac Allanol HC(2)-05-05(p15)** |
| | Nododd yr Aelodau y papur. |
| **3.6** | **Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth HC(2)-05-05(p16)** |
| | Nododd yr Aelodau y papur. |
| **4** | **Materion a gyfeiriwyd gan gynnwys Cwestiynau'r Cynulliad** |
| **4.1** | **OAQ0004(HC)**<br><br>**Nododd yr Aelodau fod yr ateb a gyflwynwyd ar 27 Ebrill wedi'i ddosbarthu iddynt.** |
| **5** | **Unrhyw Fater Arall** |
| | Nid oedd unrhyw fater arall. |
| | **Dyddiad y cyfarfod nesaf : 23 Mehefin 2005**<br><br>**Ysgrifenyddiaeth Pwyllgor y Ty** |